# Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig

*Rheoliad 03: 2015 Fersiwn 02*
*Dyddiad dod i rym: 1 Medi 2015*

***Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i fyfyrwyr a ddechreuodd ar eu rhaglen ôl-raddedig ar neu ar ôl 1 Medi 2015.***

1. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i'r rhaglenni ymchwil ôl-raddedig canlynol:

    - Graddau Meistr trwy Ymchwil
        - Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil (MARes)
        - Meistr mewn Gweinyddiaeth Fusnes trwy Ymchwil (MBARes)
        - Meistr mewn Addysg trwy Ymchwil (MEdRes)
        - Meistr yn y Cyfreithiau trwy Ymchwil (LLMRes)
        - Meistr mewn Gweinidogaeth trwy Ymchwil (MMinRes)
        - Meistr mewn Cerddoriaeth trwy Ymchwil (MMusRes)
        - Meistr mewn Gwyddoniaeth trwy Ymchwil (MScRes)
        - Meistr mewn Diwinyddiaeth trwy Ymchwil (MThRes)
    - Meistr mewn Athroniaeth (MPhil)
    - Doethuriaethau Proffesiynol
        - Doethur mewn Seicoleg Glinigol (DClinPsy)
        - Doethur yn y Weinidogaeth (DMin)
        - Doethur mewn Addysg (EdD)
        - Doethur mewn Gofal Iechyd (DHealthCare)
    - Doethur mewn Athroniaeth (PhD)

2. Nid yw'r rheoliadau hyn yn cynnwys Meistr Ymchwil (Mhres) sydd yn rhaglen sydd yn cynnwys modiwlau hyfforddedig (60 credyd) a phroject ymchwil (120 credyd). Disgrifir y Meistr Ymchwil yn fanwl yn Rheoliadau Rhaglenni Ôl-raddedig Hyfforddedig (Rheoliad 02)

3. Nid yw'r rheoliadau hyn yn cynnwys Uwch Ddoethuriaethau (gweler Rheoliad 12) na Doethuriaethau er Anrhydedd.

4. Mae'r rheoliadau hyn yn caniatáu cyflwyno traethodau ymchwil PhD sy'n cynnwys gwaith cyhoeddedig (gweler paragraff 50). Ond nid yw'r rheoliadau hyn yn berthnasol i'r PhD trwy Waith Cyhoeddedig sydd yn rhaglen sydd ar gael i ymgeiswyr y mae ganddynt gasgliad o waith cyhoeddedig cyn cofrestru yn y brifysgol. Disgrifir y PhD trwy Waith Cyhoeddedig yn Rheoliad 05.

5. Dylid darllen y rheoliadau hyn ar y cyd â Chod Ymarfer Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil (Cod 03) , Cod Ymarfer Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil (Cod 05), Cod Ymarfer Darpariaeth Gydweithredol (Cod 12) a'r Drefn Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau (Trefn 07).

6. Gall staff llawn amser neu ran amser yn y brifysgol, gan gynnwys cynorthwywyr ymchwil, wneud cais am raglen ymchwil ôl-raddedig. Rhaid i'r meini prawf, y terfynau amser a'r gofynion eraill gyd-fynd â'r disgrifiad yn y rheoliadau hyn.

7. Mae lefelau astudio a chredydau rhaglenni ymchwil ôl-raddedig fel a ganlyn:

    - Graddau Meistr trwy Ymchwil: 180 credyd ar Lefel 7
    - MPhil: Rhaid i'r gwaith a gyflwynir i'w arholi fod ar Lefel 7:
    - Doethuriaethau Proffesiynol: 540 credyd gydag isafswm o 360 credyd ar Lefel 8. Rhaid i'r credydau sy'n weddill fod ar Lefel 7 fel rheol. Gellir caniatáu uchafswm o 20 credyd ar Lefel 6 os cymeradwyir hyn adeg dilysu.
    - PhD: Rhaid i'r gwaith a gyflwynir i'w arholi fod ar Lefel 8:Rhaid i'r modiwlau hyfforddi sgiliau fod ar Lefel 7 neu Lefel 8.

    *Mae lefelau astudio'n unol â diffiniadau Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ac nid yw'r MPhil a'r PhD ar sail credydau.*

*Nodyn: O dan amgylchiadau eithriadol, a gyda chytundeb Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.*

**Meini Prawf Dyfarnu Graddau Ymchwil Ôl-raddedig**

*Daw'r meini prawf yn yr adran hon o Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (2008).*

***Graddau Meistr trwy Ymchwil ac MPhil***

8. Dyfernir graddau Meistr trwy Ymchwil ar ôl cwblhau astudiaethau ac ymchwil yn llwyddiannus. Fel rheol rhaid i'r ymchwil fod yn (a) werthusiad a dadansoddiad sylweddol o gorff o wybodaeth ac/neu (b) project ymchwil gwreiddiol.

9. Dyfernir Gradd Meistr mewn Athroniaeth (MPhil) ar ôl cwblhau astudiaethau ac ymchwil yn llwyddiannus. Fel rheol rhaid i'r ymchwil fod yn (a) werthusiad a dadansoddiad beirniadol o gorff o wybodaeth ac/neu (b) cyfraniad gwreiddiol i wybodaeth.

10. Rhaid i'r myfyrwyr ddangos, mewn perthynas â maes astudiaeth neu faes ymarfer proffesiynol penodol:

    i. dealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol ac/neu syniadau newydd, y mae llawer ohonynt ar flaen eu disgyblaeth academaidd, eu maes astudiaeth neu eu maes ymarfer proffesiynol, neu'n cael eu llywio ganddynt

    ii. dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau y gellir eu cymhwyso i'w hymchwil neu eu hysgolheictod uwch eu hunain

    iii. gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol o sut mae technegau ymchwil profedig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth

    iv. dealltwriaeth gysyniadol sy'n galluogi'r myfyriwr:

        - i werthuso'n feirniadol ymchwil gyfredol ac ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth
        - i werthuso methodolegau a datblygu dulliau o'u beirniadu, a lle bo'n briodol, i gynnig damcaniaethau newydd.

***Doethuriaethau Proffesiynol a PhD***

11. Dyfernir Doethuriaethau Proffesiynol ar ôl cwblhau cwrs hyfforddedig cymeradwy'n llwyddiannus a chwblhau astudiaethau ac ymchwil pellach yn llwyddiannus.

12. Dyfernir Gradd Doethur mewn Ymchwil (PhD) ar ôl cwblhau astudiaethau ac ymchwil yn llwyddiannus.

13. Dyfernir Doethuriaethau Proffesiynol a graddau PhD i fyfyrwyr sy'n dangos y canlynol:

    i. gallu i greu a dadansoddi gwybodaeth newydd trwy ymchwil gwreiddiol neu ysgolheictod uwch arall. Rhaid i'r gwaith fod ar flaen y ddisgyblaeth, o ansawdd sy'n bodloni adolygiad gan gydweithwyr, a rhaid ei fod yn ddigon da i'w gyhoeddi.

    ii. caffael a deall corff sylweddol o wybodaeth sydd ar flaen disgyblaeth academaidd neu faes ymarfer proffesiynol

    iii. gallu i gysyniadu, cynllunio a gweithredu project ymchwil ac addasu cynllun y project i ymateb i broblemau annisgwyl

    iv. dealltwriaeth fanwl o dechnegau y gellir eu cymhwyso i ymchwil ac ymholiadau academaidd uwch.

14. Gall myfyrwyr sy'n dilyn rhaglen ymchwil ôl-radd mewn Iaith, Astudiaethau Diwylliannol neu'r Celfyddydau Creadigol neu Berfformio fodloni hefyd ofynion dyfarnu gradd ymchwil ôl-raddedig trwy ddangos, trwy eu hymchwil, y gallu i gwblhau gwaith a all gynnwys: cyfieithiad, fersiwn neu addasiad gwreiddiol, arteffact, sgôr, portffolio, perfformiad neu arddangosfa yn cynnwys gwaith gwreiddiol.

**Dulliau Astudio**

15. Gall myfyriwr astudio rhaglen ymchwil ôl-raddedig gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

    - Dull A: Llawn amser yn y brifysgol neu mewn sefydliad arall o dan delerau cytundeb cydweithredol.
    - Dull B: Llawn amser mewn gweithle allanol
    - Dull C: Rhan amser yn y brifysgol, gweithle allanol neu mewn sefydliad arall o dan delerau cytundeb cydweithredol.
    - Dull D: Rhan-amser yn y brifysgol fel aelod staff llawn amser neu ran amser.

    Fel rheol rhaid i aelodau o staff y brifysgol sy'n cofrestru ar gyfer rhaglen ymchwil ôl-raddedig fel rhan o'u cytundeb cyflogaeth ddilyn dull astudio A.

16. Caiff myfyrwyr astudio trwy Ddull B dim ond os gallant ddarparu tystiolaeth eu bod yn cael eu cyflogi gan gwmni neu sefydliad ac y gallant wneud gwaith ymchwil yn eu gweithle. Bydd angen cadarnhad o statws cyflogaeth cyn cadarnhau cofrestriad ar gyfer pob blwyddyn astudio. Os bydd statws cyflogaeth myfyrwyr sy'n astudio trwy Ddull B yn newid yna rhaid i'r myfyriwr drosglwyddo i astudio trwy Ddull A neu Ddull C.

17. Gall ymgeiswyr sy'n astudio trwy Ddull A neu D gwblhau rhan o'u hastudiaethau mewn sefydliad arall yn y DU neu dramor. Os yw'r myfyriwr i ffwrdd o'r Brifysgol am fwy na 6 mis o'r cyfnod cofrestru cyfan yna rhaid bod cytundeb rhwng y Brifysgol a'r sefydliad sy'n cydweithredu.

    *Nid yw hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio trwy Ddull A o dan gytundeb cydweithredol, megis rhaglenni deuol neu raglenni ar y cyd/hollt. Yn achos rhaglenni felly rhaid bod cytundeb cydweithredol wedi'i gymeradwyo cyn cofrestru myfyrwyr yn y brifysgol.*

18. Gall myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyfer cymwysterau mewn sefydliadau eraill astudio yn y brifysgol fel myfyrwyr llawn amser nad ydynt yn graddio. Fel rheol rhaid wrth gytundeb rhwng Prifysgol Bangor a'r sefydliad sy'n cydweithredu. Y Gofrestrfa Academaidd fydd yn pennu'r ffioedd trwy drafod gyda'r Ysgol sy'n derbyn y myfyriwr.

**Meini Prawf Derbyn**

19. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer rhaglen ymchwil ôl-raddedig feddu ar un o'r canlynol:

    i. gradd gyntaf y Brifysgol
    ii. gradd gyntaf prifysgol arall a gymeradwywyd
    iii. cymhwyster y barnodd y Brifysgol ei bod yn gyfwerth â gradd gyntaf

20. Rhaid i ymgeiswyr hefyd fodloni'r holl amodau eraill a bennwyd gan y brifysgol gan gynnwys gofynion iaith Saesneg.

**Rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol - Trosglwyddo Credydau ac Achredu Dysgu Profiadol Blaenorol (APEL)**

21. Gall astudio neu brofiad blaenorol gyfrannu tuag at raglen Doethuriaeth Broffesiynol oni fanylir fel arall ym Manyleb y Rhaglen. Gall yr Ysgol ystyried y canlyniadau a gafwyd mewn astudiaethau blaenorol (Trosglwyddo Credydau) ac/neu brofiad blaenorol perthnasol (Achredu Dysgu Profiadol Blaenorol, APEL).

22. Ni ellir trosglwyddo mwy na 180 credyd ac/neu achredu mwy na 180 credyd o APEL. Rhaid i'r credydau a drosglwyddir fod ar Lefel 7 neu uwch. Fel rheol ni chaiff y credydau fod o radd (e.e. gradd Meistr hyfforddedig) a ddyfarnwyd eisoes i'r ymgeisydd . Ni ellir trosglwyddo credydau o radd a ddyfarnwyd o'r blaen ond os cymeradwywyd llwybr trosglwyddo adeg dilysu neu o dan delerau cytundeb cydweithredol.

23. Ni ellir cymeradwyo trosglwyddo credydau ac/neu APEL ar gyfer profiad a enillwyd fwy na 10 mlynedd cyn dechrau'r rhaglen ymchwil ôl-raddedig. Gellir diffinio terfynau amser byrrach adeg dilysu.

24. Yn dibynnu ar nifer y credydau a drosglwyddwyd, neu ar natur y profiad blaenorol, gellir caniatáu i fyfyrwyr hepgor y cyfan neu ran o elfen hyfforddedig y rhaglenni.

**Ffioedd a Chyfnod Cofrestru (Astudio):**

25. Fel rheol gall myfyriwr ddechrau rhaglen ymchwil ôl-radd ar ddiwrnod cyntaf unrhyw fis:

26. Cyhoeddir ffioedd bob blwyddyn ar wefan y brifysgol. Rhaid i fyfyrwyr dalu ffioedd am y cyfnod cofrestru cyfan. Codir ffi arholi ar gynorthwywyr ymchwil a gyflogir gan y Brifysgol ac sy'n astudio o dan Ddull A ond fel rheol hepgorir yr holl ffioedd eraill.

    Os bydd myfyriwr yn rhoi'r gorau i'w hastudiaethau neu'n eu gohirio dros dro, fel rheol ad-delir ffioedd ar sail pro-rata. Fel rheol ad-delir ffioedd a dalwyd gan drydydd parti (e.e. Cyngor Ymchwil) i'r trydydd parti ac nid i'r myfyriwr. Dylai myfyrwyr nodi y bydd noddwyr fel rheol yn gofyn am ad-daliad o grant os bydd y myfyriwr yn rhoi'r gorau i'w hastudiaethau neu'n eu gohirio dros dro.

27. Ar gais yr ysgol, efallai bydd myfyriwr sy'n astudio yn ôl Dull A neu B yn gorfod cwblhau cyfnod astudio ychwanegol cyn cael caniatâd i symud ymlaen i'r rhaglen, er enghraifft, er mwyn cwblhau hyfforddiant mewn technegau penodol. Os yw'r corf ariannu neu'r noddwr yn dymuno, gall myfyriwr gwblhau cyfnod ychwanegol o astudio yn ystod cyfrnod cofrestru estyngedig. Codir ffi, a gyfrifir fel rheol fel cyfran o'r ffi ddysgu flynyddol, am y cyfnod astudio ychwanegol. Rhaid i geisiadau am gyfnodau astudio ychwanegol gael eu cyfiawnhau gan yr Ysgol a'u cymeradwyo gan y Gofrestrfa Academaidd. Rhaid i fyfyrwyr fod wedi cofrestru fel myfyrwyr llawn amser yn ystod y cyfnod astudio ychwanegol. Gall yr Ysgol nodi telerau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu bodloni y gallant symud ymlaen o'r cyfnod astudio ychwanegol i weddill y rhaglen. Rhaid i'r myfyriwr gael gwybod am yr amodau hyn cyn iddynt cyn symud ymlaen i weddill y rhaglen.

28. Mae cyfnod cofrestru'r MPhil a'r PhD yn cynnwys cyfnod prawf. Gellir caniatáu i fyfyrwyr gael eu heithrio o'r cyfan neu ran o'r cyfnod prawf os byddant yn bodloni un o leiaf o'r amodau canlynol.

    - yn meddu ar radd Meistr mewn maes pwnc perthnasol
    - wedi cwblhau blwyddyn o leiaf o ymchwil llawn amser, neu 2 flynedd o ymchwil rhan amser mewn maes pwnc perthnasol.
    - yn meddu ar flwyddyn o leiaf o brofiad proffesiynol.

    Dwy flynedd yw cyfnod prawf ar gyfer PhD ac MPhil o dan Ddull C. Blwyddyn yw cyfnod prawf yr MPhil a'r PhD o dan Ddull A, B neu D. Os caniateir eithrio o'r cyfnod prawf, cwtogir ar y cyfnod cofrestru a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r traethawd ymchwil (fel y disgrifir ym mharagraff 31). Rhaid cymeradwyo ceisiadau i eithrio o'r cyfnod prawf fel rhan o'r broses derbyn. Rhaid i Gadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gymeradwyo unrhyw geisiadau a gyflwynir ar ôl i fyfyriwr gofrestru.

29. Yn ystod y cyfnod prawf, rhaid i fyfyrwyr ddangos, er boddhad y Pwyllgor Goruchwylio, fod ganddynt ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth am y ddisgyblaeth i'w galluogi i fodloni gofynion y rhaglen (fel y'u diffinnir ym mharagraff 10 neu baragraff 13) ac o fewn y cyfnodau amser a ddynodir ym mharagraff 31. Os nad yw gwaith myfyriwr yn dderbyniol, trosglwyddir y myfyriwr i raglen ymchwil ôl-raddedig arall:

    i. <u>O MPhil i Radd Meistr trwy Ymchwil</u> Rhaid cwblhau'r radd Meistr trwy Ymchwil o dan Ddull C. Os yw'r myfyriwr wedi ei gofrestru ar yr MPhil o dan Ddull A neu B, rhaid cwblhau'r Meistr trwy Ymchwil o fewn 6 mis. Os yw'r myfyriwr wedi ei gofrestru ar yr MPhil o dan Ddull C neu D, rhaid cwblhau'r Meistr trwy Ymchwil o fewn 12 mis.

    ii. <u>O PhD i MPhil</u> Fel rheol rhaid cwblhau'r MPhil o dan yr un dull â'r PhD ond gall myfyrwyr drosglwyddo i ddull arall os bydd yr ysgol yn cytuno. Pennir y cyfnod sydd ar gael i gwblhau'r MPhil fel y'i disgrifir ym mharagraff 40.

30. Rhaid i gynnydd myfyriwr gael ei adolygu gan Bwyllgor Goruchwylio bob blwyddyn hyd nes y cyflwynir y traethawd ymchwil. Rhaid trosglwyddo myfyriwr sydd ddim yn cyrraedd y safonau gofynnol i raglen ymchwil ôl-raddedig arall fel y disgrifir ym mharagraff 39.

31. Mae'r cyfnodau cofrestru a'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno traethodau ymchwil fel a ganlyn;

| **Rhaglen a Dull Astudio** | **Cyfnod cofrestru (blynyddoedd)** | **Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil (blynyddoedd) *1** |
|---|---|---|
| **Meistr trwy Ymchwil** | | |
| Dulliau A a B: | 1 | 2 |
| Dulliau C a D | 2 | 4 |
| **MPhil** | | |
| Dulliau A a B: | 2 | 3 |
| Dulliau C a D | 4 | 5 |
| **Doethuriaethau Proffesiynol*2** | | |
| Dulliau A a B: | 3 | 5 |
| Dulliau C a D | 6 | 7 |
| **PhD** | | |
| Dulliau A a B: | 3 | 4 |
| Dull C: | 6 | 8 |
| Dull D | 3 | 8 |

*1Bydd ymgeisyddiaeth yn mynd yn ddi-rym os na chyflwynir thesis o fewn y cyfnod amser hwn a bernir bod yr ymgeisydd wedi methu,

*2 Gellir diffinio'r dulliau astudio a'r terfynau amser sydd ar gael ar gyfer rhaglenni adeg dilysu.

Os caniatawyd i'r myfyriwr gael ei eithrio o gyfnod prawf MPhil neu PhD, neu o ran hyfforddedig Doethuriaeth Broffesiynol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 24 neu 28) rhaid lleihau'r cyfnodau amser uchod yn unol â hyd y cyfnod eithrio.

32. Rhaid i'r myfyrwyr fod yn y brifysgol, neu mewn lleoliad arall a gytunir trwy gydol y cyfnod cofrestru cyfan. Oni ddynodir yn wahanol gan delerau swydd neu delarau noddwr, gall myfyrwyr sy'n astudio trwy Ddull A gymryd hyd at 8 wythnos o wyliau (yn cynnwys gwyliau cyhoeddus a gwyliau prifysgol). Rhaid i'r goruchwyliwr neu'r unigolyn dynodedig yn yr ysgol gymeradwyo absenoldebau astudio neu wyliau (ac eithrio gwyliau cyhoeddus y DU neu wyliau prifysgol). Rhaid rhoi gwybod yn syth am absenoldebau annisgwyl oherwydd salwch neu amgylchiadau eraill.

    Fel rheol mae hawliau gwyliau myfyrwyr sy'n astudio drwy Ddull B neu Ddull D yn cael eu pennu yn unol ag amodau eu cyflogaeth. Os yw'r absenoldeb yn debygol o gael effaith ar astudiaethau'r myfyriwr (e.e. absenoldeb yn ystod cyfnod pan drefnwyd casglu data) rhaid i'r goruchwyliwr gymeradwyo'r absenoldeb.

33. Gellir estyn y terfynau amser yn y rheoliadau hyn mewn achosion eithriadol. Rhaid i ysgol y myfyriwr wneud cais am estyniad, yn seiliedig ar dystiolaeth briodol, cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r traethawd. Ystyrir y cais gan Gadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd neu ei enwebai.

34. Os bydd yr Ysgol yn cytuno, gall myfyrwyr roi'r gorau i'w hastudiaethau dros dro oherwydd amgylchiadau meddygol neu amgylchiadau lliniarol eraill. Pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd, bydd y cyfnod cofrestru yr un peth â'r cyfnod sydd yn weddill o'r rhaglen wreiddiol oni chymeradwyir estyniad fel y'i disgrifir ym mharagraff 33.

35. Gall myfyrwyr gyflwyno traethawd ymchwil, fan cynharaf, 6 mis cyn diwedd y cyfnod astudio ac eithrio myfyrwyr a gofrestrwyd ar gyfer gradd Meistr trwy Ymchwil o dan Ddull a neu B a all gyflwyno traethawd, fan cynharaf, 2 fis cyn diwedd y cyfnod astudio.

**Trosglwyddo i/o Raglenni Ymchwil Ôl-raddedig amser llawn/rhan amser.**

36. Os bydd myfyrwyr yn trosglwyddo o raglen ran amser i raglen lawn amser, fel arfer fe gyfrifir y cyfnod astudio a gwblhawyd eisoes fel:

    Cyfnod llawn amser cyfatebol (misoedd) = astudiaethau rhan amser a gwblhawyd (misoedd) /2

37. Os bydd myfyrwyr yn trosglwyddo o raglen lawn amser i raglen ran amser, fel arfer fe gyfrifir y cyfnod astudio a gwblhawyd eisoes fel:

    Cyfnod rhan amser cyfatebol (misoedd) = astudiaethau llawn amser a gwblhawyd (misoedd) *2

38. Fel rheol caniateir i fyfyrwyr drosglwyddo o raglen lawn amser i raglen ran amser, neu fel arall, ar un achlysur yn unig yn ystod eu cyfnod cofrestru a ddim o fewn y tri mis olaf o'r cyfnod astudio. Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio Ffurflen Newid Dull o Astudio sydd ar gael ar wefan y Gofrestrfa Academaidd.

**Trosglwyddo i/o Raglenni Ymchwil Ôl-raddedig Eraill**

39. Gall myfyrwyr drosglwyddo o un rhaglen ymchwil ôl-raddedig i un arall fel a ganlyn:

    i. Caniateir trosglwyddo os bydd amgylchiadau'n codi sy'n atal myfyriwr rhag cwblhau rhaglen ymchwil ôl-raddedig. Caniateir trosglwyddo hefyd os nad yw myfyrwyr wedi cwrdd â'r safonau sydd eu hangen i symud ymlaen gyda'u hastudiaethau.

        - O raglen Meistr trwy Ymchwil neu Ddoethuriaeth Broffesiynol i Raglen Ôl-raddedig Hyfforddedig. Rhaid i fyfyrwyr allu cyflawni gofynion y rhaglen hyfforddedig fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Rhaglenni Ôl-raddedig Hyfforddedig (Rheoliad 02) ac unrhyw ofynion a ddiffinnir gan Fanyleb y Rhaglen.
        - O MPhil i Radd Meistr trwy Ymchwil
        - O PhD i MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil
        - O Ddoethuriaeth Broffesiynol i MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil

        Fel rheol ni chaniateir i fyfyrwyr drosglwyddo i raglen ymchwil ôl-raddedig arall os ydynt wedi cwblhau cyfnod astudio ar eu rhaglen gyfredol sydd yn gyfwerth neu'n fwy na chyfnod cofrestru'r rhaglen arall fel y'i diffinnir gan y rheoliadau hyn. Gellir caniatáu trosglwyddo i raglen arall y tu hwnt i derfynau amser arferol y rhaglen honno dim ond trwy ganiatáu estyniad fel y'i disgrifir ym mharagraff 33.

    ii. Trosglwyddiadau a ganiateir lle mae cynnydd myfyriwr yn gyson â gofynion y rhaglen arall a lle gall y myfyriwr ddarparu tystiolaeth bod digon o arian i gefnogi cyfnod astudio estynedig.

        - O Radd Meistr trwy Ymchwil i MPhil neu PhD
        - O MPhil i PhD

40. Cyfrifir y cyfnod cofrestru sy'n weddill os bydd myfyriwr yn trosglwyddo i raglen newydd gyda chyfnod cofrestru hwy neu fyrrach na chyfnod y rhaglen wreiddiol fel y gwahaniaeth (mewn misoedd) rhwng cyfnod cofrestru'r rhaglen newydd a'r cyfnod a gwblhawyd eisoes ar y rhaglen wreiddiol. Os bydd myfyriwr yn newid y dull astudio hefyd, rhaid gwneud addasiadau hefyd fel y'u disgrifir ym mharagraffau 36 neu 37.

41. Fel rheol ni chaniateir trosglwyddo o Ddoethuriaeth Broffesiynol i PhD. Rhaid i fyfyrwyr sy'n dymuno trosglwyddo o Ddoethuriaeth Broffesiynol i PhD derfynu eu cofrestriad ar y Ddoethuriaeth Broffesiynol a gwneud cais o'r newydd am PhD. Gellir hepgor cyfnod prawf y PhD os ydyw'r myfyriwr wedi cwblhau elfen hyfforddedig Doethuriaeth Broffesiynol yn llwyddiannus.

42. Gellir caniatáu trosglwyddo o Raglen Ôl-raddedig Hyfforddedig i Ddoethuriaeth Broffesiynol yn dibynnu ar yr amodau a ddiffiniwyd adeg dilysu neu fel a gytunwyd gan y brifysgol ar gyfer rhaglenni cydweithredol.

43. Os bydd yr ysgol yn cytuno, gall myfyrwyr drosglwyddo o raglen ymchwil ôl-raddedig i'r un rhaglen mewn ysgol ac/neu faes pwnc gwahanol. Bydd y cyfnod cofrestru sydd yn weddill yr un peth â'r cyfnod sydd yn weddill o'r rhaglen wreiddiol oni chymeradwyir estyniad fel y'i disgrifir ym mharagraff 33.

**Cymwysterau Ymadael**

44. Ac eithrio fel y diffinnir ym mharagraff 45 ar gyfer Doethuriaethau Proffesiynol ni ellir dyfarnu cymhwyster ymadael i fyfyrwyr os ydynt yn terfynu eu hastudiaethau cyn cwblhau'r broses arholi. Er enghraifft, ni ellir dyfarnu MPhil i fyfyrwyr dim ond ar y sail fod dwy flynedd ar raglen PhD wedi eu cwblhau. Gall myfyrwyr, fel y disgrifir ym mharagraffau 39-40, drosglwyddo i raglenni eraill a chael eu harholi o dan reoliadau'r rhaglenni hynny.

45. Yn achos rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol, gall myfyrwyr ymadael gyda Gradd Meistr hyfforddedig, Diploma Ôl-raddedig neu Dystysgrif Ôl-raddedig os ydynt wedi cyflawni gofynion y pwyntiau ymadael penodol fel y'u diffinnir ym Manyleb y Rhaglen. Ni ellir dyfarnu cymhwyster ymadael i fyfyrwyr os na ddiffiniwyd pwyntiau ymadael penodol ym Manyleb y Rhaglen.

**Graddau Aegrotat ac ar ôl marwolaeth**

46. Os atelir myfyriwr rhag cwblhau rhaglen, gall byrddau arholwyr argymell i'r Cofrestrydd Academaidd fod cymhwyster ar ôl marwolaeth neu aegrotat yn cael ei ddyfarnu. Dyfernir cymwysterau ar ôl marwolaeth os bydd myfyriwr yn marw cyn cwblhau rhaglen. Dyfernir cymhwyster aegrotat os na all myfyriwr gwblhau rhaglen oherwydd salwch ac os oes tystiolaeth na fydd y myfyriwr yn gallu ailafael yn ei astudiaethau yn y brifysgol neu mewn man arall. Gall byrddau arholwyr argymell i'r Cofrestrydd Academaidd gymhwyster ar ôl marwolaeth neu aegrotat os oes tystiolaeth y byddai'r myfyriwr wedi cwblhau'r cymhwyster pe buasai'r amgylchiadau wedi caniatáu hynny. Gall y dystiolaeth gynnwys credydau wedi eu cwblhau, gwaith arall wedi ei gwblhau, tystiolaeth gan oruchwylwyr ac/neu diwtoriaid ynghylch gwaith ac/neu ymroddiad myfyriwr. Os oes cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei ddyfarnu, er enghraifft oherwydd achrediad proffesiynol, gellir argymell cymhwyster arall.

**Goruchwylio a Hyfforddi**

47. Rhaid goruchwylio myfyrwyr yn unol â'r disgrifiad yng Nghod Ymarfer Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil (Cod 03).

48. Mae'n rhaid i'r goruchwylwyr gyflawni'r amodau canlynol:

    - aelod llawn amser o'r staff academaidd
    - Aelod rhan amser o'r staff academaidd sy'n meddu ar brofiad academaidd, clinigol neu brofiad proffesiynol perthnasol arall
    - aelod wedi ymgymhwyso'n briodol o staff prifysgol neu sefydliad ymchwil arall.

    Os yw'n debygol y bydd contract goruchwyliwr yn dod i ben cyn i fyfyriwr gwblhau eu hastudiaethau, argymhellir bod ysgolion yn penodi cyd-oruchwyliwr a fydd yn dal y swydd trwy gydol cyfnod cofrestru arfaethedig y myfyriwr.

49. Bydd y brifysgol yn rhoi mynediad i fyfyrwyr ymchwil i hyfforddiant ymchwil. Bydd hyn yn eu galluogi i ennill sgiliau ymchwil-benodol a sgiliau cyffredinol trosglwyddadwy. Disgwylir y bydd yr hyfforddiant yn gwella profiad myfyrwyr a'u cyfle i gael swydd. Dewisir y cyrsiau sgiliau o gyfres o fodiwlau a all gynnwys modiwlau y ceir credydau amdanynt a rhai di-gredyd. Bydd y dewisiadau'n dibynnu ar y rhaglen ymchwil ôl-raddedig arfaethedig ac ar hyfforddiant a phrofiad blaenorol y myfyriwr. Dylai myfyrwyr drafod y dewis o fodiwlau gyda'u goruchwyliwr. Gall yr Ysgol ddynodi cyrsiau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cwblhau, er enghraifft, hyfforddiant Iechyd a Diogelwch. Rhaid i rai myfyrwyr gwblhau cyrsiau penodol hefyd er mwyn cwrdd â gofynion eu corff cyllido neu eu noddwr.

Ni fydd y cyrsiau'n cyfrannu at arholi rhaglenni ymchwil ôl-raddedig. Ni fydd myfyrwyr yn ennill cymhwyster wrth gwblhau modiwlau o'r fath ond gellir trosglwyddo credydau i raglenni gradd eraill. Bydd ysgolion yn ystyried sut mae myfyrwyr wedi dod ymlaen ar y cyrsiau hynny wrth adolygu cynnydd myfyrwyr.

**Y Drefn Asesu**

50. Mae rhaglenni ymchwil ôl-raddedig yn cynnwys cyflwyno traethawd ymchwil. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys:

- crynodeb
- trafodaeth/sylwebaeth sy'n rhoi'r gwaith mewn cyd-destun ac yn disgrifio, fel y bo'n briodol, ei arwyddocâd academaidd neu fasnachol.

Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys hefyd:

- adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n berthnasol i waith y myfyriwr
- disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddir gan y myfyriwr i wneud yr ymchwil
- disgrifiad o ganlyniadau'r ymchwil a'r canfyddiadau
- llyfryddiaeth o'r ffynonellau a ddyfynnir neu y cyfeirir atynt yn y traethawd

Gellir cyflwyno'r elfennau hyn (adolygiad o'r llenyddiaeth, dulliau, canlyniadau, canfyddiadau a chyfeiriadau ) fel un neu fwy o'r canlynol:

- adrannau/penodau ar wahân
- papurau'n barod i'w cyflwyno i gyfnodolyn academaidd
- gwaith a gyhoeddwyd eisoes
- cyfieithiad, fersiwn neu addasiad gwreiddiol
- artiffact
- sgôr
- portffolio o waith gwreiddiol
- recordiad neu berfformiad
- arddangosfa

*Os cynhwysir gwaith a wnaed ar y cyd ag awduron eraill yn y thesis, dylid diffinio cyfraniad y myfyriwr at y gwaith hwnnw.*

51. Rhaid i'r arholwyr farnu'r traethawd ar sail safon a rhychwant y gwaith y mae'n rhesymol ei ddisgwyl gan fyfyriwr ymchwil ôl-raddedig ar ôl cyfnod astudio penodol (fel y'i diffinnir gan y rheoliadau hyn, ac yn enwedig ym mharagraff 10 neu baragraff 13).

***Gradd Meistr trwy Ymchwil, MPhil a PhD:***

Rhaid i'r myfyrwyr gyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi. Fel rheol ni ddylai'r traethawd fod yn hwy na 50,000 o eiriau yn achos gradd Meistr trwy Ymchwil, 60,000 o eiriau yn achos gradd MPhil neu 100,000 o eiriau yn achos PhD. Ni ddylai'r terfyn geiriau, fel arfer, gynnwys troednodiadau a llyfryddiaeth.

52.

53. Mae gofyn i'r Bwrdd Arholi gynnal arholiad llafar i bob myfyriwr. Gall y Bwrdd Arholi hepgor y gofyniad hwn wrth arholi traethawd ymchwil a ailgyflwynwyd.

***Doethuriaethau Proffesiynol:***

54. Arholir rhaglenni Doethuriaeth Broffesiynol mewn dwy ran. Rhaid i fyfyrwyr ddilyn cynllun astudio hyfforddedig (a all gynnwys cyfnodau o ymarfer a hyfforddiant proffesiynol/diwydiannol cymeradwy) a phroject ymchwil.

55. Caiff Rhan Un, y cynllun hyfforddedig ei arholi trwy asesiadau fel y'u diffinnir ym Manyleb y Rhaglen. Gall yr asesiadau gynnwys gwerthuso ymarfer proffesiynol/diwydiannol, arholiadau, adroddiadau a phrojectau/portffolios. Gall yr arholwyr ofyn i fyfyriwr sefyll arholiad llafar fel rhan o broses asesu Rhan Un. Rhaid i fwrdd arholi ystyried a chadarnhau canlyniadau myfyrwyr yn Rhan Un o'r rhaglen cyn caniatáu i fyfyrwyr gyflwyno traethodau ymchwil i'w harholi.

Er mwyn cwblhau Rhan Un yn llwyddiannus, rhaid i fyfyrwyr gyflawni pob un o'r canlynol:

- cyfartaledd cyffredinol o 50% o leiaf.
- marc o 50% o leiaf mewn modiwlau sy'n werth o leiaf ddwy ran o dair o'r credydau
- dim marc o lai na 40% mewn unrhyw fodiwl
- marc o 50% o leiaf yn yr holl fodiwlau a ddiffinnir fel modiwlau craidd.

Mewn achosion eithriadol (er enghraifft, i gyflawni amodau a osodir gan Gorff Proffesiynol, gellir addasu'r meini prawf a ddiffinnir uchod yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.

56. Os ydyw myfyriwr yn methu Rhan 1 rhaid i'r Bwrdd Arholi benderfynu a oes rhaid ei ailarholi yn y canlynol:

    i. Yr holl elfennau asesu

    ii. Yr elfennau asesu y mae wedi eu methu

    Marc llwyddo yw'r marc uchaf y gellir ei roi am waith a ailgyflwynwyd oni bai fod amgylchiadau lliniarol wedi eu cofnodi a effeithiodd ar gyflwyniad cyntaf y myfyriwr.

57. Fel rheol disgwylir i fyfyrwyr gyflwyno gwaith newydd i'w ailarholi. Yn achos elfennau clinigol neu ymarferol, gall y Bwrdd Arholi ganiatáu i fyfyrwyr ailgyflwyno gwaith a seilir ar y profiad clinigol neu ymarferol gwreiddiol, ond marc llwyddo yw'r marc uchaf y gellir ei roi.

58. Fel rheol rhaid i fyfyriwr lwyddo yn Rhan Un (fel y'i diffinnir ym mharagraff 55) cyn cyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi. Gall myfyrwyr ar y DClinPsy gyflwyno traethawd i'w arholi cyn cwblhau Rhan Un.

59. Yn Rhan Dau, y project ymchwil, rhaid i'r myfyrwyr gyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi. Ni chaiff y traethawd fod yn hwy na 60,000 o eiriau. Ni ddylai'r terfyn geiriau, fel arfer, gynnwys troednodiadau a llyfryddiaeth. Mae gofyn i'r bwrdd arholi gynnal arholiad llafar i bob myfyriwr. Gellir hepgor y gofyniad hwn wrth arholi traethawd a ailgyflwynwyd. Cadeirydd y Bwrdd Arholi fel rheol sy'n gwneud y penderfyniad i hepgor yr arholiad llafar ar draethawd a ailgyflwynwyd.

60. Rhaid llwyddo yn y ddwy ran o'r arholiad er mwyn bod yn gymwys i gael y radd. Efallai bydd yn rhaid i'r myfyrwyr lwyddo mewn elfennau ymarfer proffesiynol/clinigol er mwyn bod yn gymwys i gael y radd; rhaid diffinio unrhyw ofynion o'r fath ym Manyleb y Rhaglen.

**Cyflwyno'r Traethawd Ymchwil**

61. Rhaid cyflwyno traethodau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Ni ellir cyflwyno traethodau mewn iaith ac eithrio Cymraeg neu Saesneg ond lle:

    - Mae'r iaith gyflwyno yn adlewyrchu'r iaith y gwnaed yr ymchwil ynddo neu sy'n sail i'r ymchwil.
    - Gall goruchwyliwr y myfyriwr ddarparu arweiniad a sylwadau ar y traethawd heb ei gyfieithu
    - Gellir penodi arholwyr mewnol ac allanol i arholi'r gwaith heb ei gyfieithu.

    Yn ogystal â hyn, wrth gyflwyno mewn iaith arall rhaid i hynny:

    - Ddod â manteision sylweddol wrth ledaenu deilliannau'r ymchwil
    - bod yn gyson â strategaeth ymchwil yr ysgol/coleg
    - peidio â chael effaith negyddol ar fynediad i'r traethawd ymchwil.

    Ni ddylid cyflwyno traethodau ymchwil mewn iaith ac eithrio Cymraeg neu Saesneg os yw'r unig resymau'n un neu fwy o'r canlynol. Dylid mynd i'r afael â ffactorau felly trwy roi cymorth priodol, a, lle bo'n berthnasol, estyniad i'r cyfnod astudio.

    - mae'r myfyriwr yn dymuno cyflwyno mewn iaith arall oherwydd byddai'n haws na chyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg.
    - mae gan y myfyriwr anabledd sy'n effeithio ar eu gallu i gyflwyno gwaith yn Gymraeg neu Saesneg.
    - mae'r myfyriwr, y tu allan i delerau unrhyw gytundeb â sefydliad arall, yn dymuno cyflwyno traethawd a gaiff ei gyflwyno wedyn i sefydliad/corff arall i'w gydnabod.

62. Rhaid cyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi ar ffurf cyfrol wedi ei rhwymo'n feddal a rhaid darparu copi electronig hefyd. Os oes angen cywiriadau ar ôl yr arholiad, rhaid cyflwyno'r fersiwn wedi ei gywiro o'r traethawd ar ffurf electronig oni bai nad yw trefniadau'r ysgol yn caniatáu hyn. Rhaid i'r fersiwn terfynol a

chymeradwy o'r traethawd fod ar ffurf cyfrol wedi ei rhwymo'n galed (fel y'i diffinnir ym mharagraff 70) a rhaid cyflwyno copi electronig hefyd. Rhaid i'r myfyrwyr adneuo'r fersiwn electronig terfynol o'r traethawd yng Nghadwrfa Ddigidol y brifysgol gan ddefnyddio'r trefniadau a ddiffinnir gan y brifysgol.

63. Rhaid i'r gyfrol sydd wedi ei rhwymo'n feddal fod:

- yn ddigon cadarn i oroesi'r daith i'r arholwyr ac yn ôl.
- ag enw'r myfyriwr a'r rhaglen ymchwil ôl-raddedig a gwblhawyd, ar y clawr.

64. Rhaid cyflwyno traethodau ar bapur A4 o ansawdd da. Ni chaiff ymylon y dudalen fod yn llai na 2cm a ni chaiff fod yn fwy na 3cm. Rhaid defnyddio ffontiau Serif (e.e. Times-Roman, Bookman) neu ffontiau Sans-serif (e.e. Arial, Helvetica, Verdana, Tahoma) neu ffontiau cyfatebol. Ym mhrif gorff y testun, ni ddylai ffontiau Serif fod yn llai na 12-pwynt. Ni ddylai ffontiau Sans-serif fod yn llai na 10-pwynt. Ni chaiff llythrennau/symbolau mewn testunau eraill (nodiadau, troednodiadau etc) fod yn llai na 10-pwynt (ffontiau Serif) ac 8-pwynt (ffontiau Sans-serif). Rhaid i'r holl dudalennau a argreffir fod o ansawdd cyson gyda llythrennau/symbolau du eglur sydd yn addas i'w sganio/llungopïo. Rhaid defnyddio bwlch un a hanner rhwng llinellau yn y prif destun, ond gellir defnyddio bylchau sengl yn y crynodeb ac mewn unrhyw ddyfyniadau a throednodiadau a fewnolir. Fel rheol rhaid argraffu ar y ddwy ochr i'r dudalen. Gellir argraffu siartiau, diagramau a ffotograffau mewn lliw, ond rhaid i fyfyrwyr sicrhau y gellir llungopïo'r holl ddeunydd heb golli dim o'i fanylion na'i eglurder.

65. Rhaid i fyfyrwyr gael caniatâd i ddefnyddio deunyddiau pobl eraill yn y traethawd ymchwil. Cyfyngir ar fynediad electronig i'r traethawd ymchwil os ni chafwyd caniatâd i ddefnyddio deunydd dan hawlfraint.

66. Ar gyfer yr arholiad, rhaid i fyfyriwr gyflwyno'r canlynol i bennaeth yr ysgol neu ei enwebai:

i. dau gopi o'r traethawd ymchwil wedi eu rhwymo'n feddal sy'n cynnwys:

- crynodeb hyd at 300 gair
- datganiad wedi ei lofnodi yn ardystio nad yw'r gwaith wedi cael ei dderbyn ar gyfer unrhyw gymhwyster, ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd am unrhyw radd oni fel y cytunwyd gan y brifysgol ar gyfer cymwysterau deuol cymeradwy.
- datganiad wedi ei lofnodi i gadarnhau mai gwaith y myfyriwr ei hun yw'r traethawd.
- datganiad wedi ei lofnodi yn dweud ble bydd y traethawd ar gael yn defnyddio <u>un</u> o'r canlynol:

(a) a) Cytunaf i adneuo copi electronig o'm traethawd ymchwil (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, a lle bo angen rydw i wedi cael y caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd trydydd parti.

(b) Cytunaf i adneuo copi electronig o'm traethawd ymchwil (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, pan fydd y gwaharddiad ar fynediad cymeradwy wedi ei godi.

(c) Cytunaf i gyflwyno fy nhraethawd ymchwil (y Gwaith) yn electronig trwy gyfrwng system e-gyflwyno Prifysgol Bangor ond rydw i'n dewis peidio ag adneuo copi electronig yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, oherwydd na chafwyd caniatâd i ddefnyddio deunydd trydydd parti.

Dylid defnyddio Dewis b dim ond os cymeradwywyd gwaharddiad ar fynediad fel y disgrifir ef ym mharagraff 68.

*Fel rheol bydd teitl y traethawd hir a chrynodeb ohono ar gael yn rhydd.*

ii. Copi ychwanegol o'r crynodeb

iii. copi electronig o'r thesis sydd o ran ei strwythur a'i fformat yn union yr un fath â'r fersiwn wedi ei argraffu.

67. Ac eithrio fel y bydd bwrdd arholi'n caniatáu, ni chaniateir i fyfyriwr ddiwygio'r traethawd ymchwil, ychwanegu ato neu ddileu rhannau ohono ar ôl ei gyflwyno.

68. Bydd traethodau ar gael fel rheol heb unrhyw waharddiad ar fynediad. Gellir caniatáu gwaharddiad ar fynediad am gyfnod penodol o hyd at bum mlynedd. Rhaid i oruchwyliwr y myfyriwr gyflwyno cais am waharddiad ar fynediad. Rhaid cyflwyno ceisiadau i'r Gofrestrfa Academaidd i'w hystyried gan Gadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd (neu ei enwebai). Ni ellir estyn y gwaharddiad ar fynediad y tu hwnt i'r cyfnod a gytunwyd oni bai fod Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd (neu ei enwebai) yn cytuno i hynny.

69. Fel rheol gall myfyriwr gyhoeddi unrhyw waith ymchwil cyn ei gyflwyno i'w arholi. Ni chaiff y gwaith cyhoeddedig ddatgan y caiff y gwaith ei gyhoeddi fel rhan o gyflwyniad ar gyfer rhaglen ymchwil ôl-raddedig. Gellir cynnwys gwaith wedi ei gyhoeddi yn y traethawd. Mewn rhai achosion, mae'n bosib na chaniateir cyhoeddi, er enghraifft, lle gosodwyd cyfyngiadau gan noddwr neu gan y brifysgol.

70. Ar ôl cymeradwyo'r cywiriadau rhaid rhwymo'r fersiwn terfynol o'r traethawd yn barhaol o fewn cloriau caled. Rhaid i'r rhwymiad fod yn un parhaol, fel llyfr clawr caled, a'r tudalennau wedi eu cysylltu'n barhaol. Rhaid i'r cloriau gynnal pwysau'r traethawd pan fydd yn sefyll ar silff. Rhaid i'r cyfrolau wedi eu rhwymo (neu'r cynwysyddion fel y'u diffinnir ym mharagraff 71) ddwyn cyfenw a blaenlythrennau'r myfyriwr, teitl llawn neu dalfyredig y gwaith, enw'r rhaglen y cyflwynwyd ef ar ei chyfer a dyddiad y cyflwyniad. Rhaid gallu darllen y wybodaeth hon pan fydd y gyfrol yn gorwedd ar ei hochr â'r clawr blaen ar i fyny. Os yw'r gwaith yn cynnwys mwy nag un gyfrol rhaid cynnwys rhif pob cyfrol ar feingefn pob cyfrol.

71. Gall myfyrwyr gyflwyno deunydd megis mapiau, diagramau, a recordiadau sain neu fideo gyda'r thesis. Rhaid i'r deunyddiau fod mewn cynhwysydd addas i'w storio ar silff mewn llyfrgell. Rhaid i'r cynhwysydd ddwyn yr un wybodaeth â'r hyn sy'n ofynnol ar feingefn project ymchwil, a rhaid bod modd darllen y wybodaeth pan fydd y cynhwysydd ar y silff.

**Arholiad**

72. Bydd bwrdd arholi'n cynnwys y canlynol:

- cadeirydd
- arholwr mewnol (ac eithrio pan fydd y myfyriwr yn aelod staff)
- arholwr allanol
- ail arholwr allanol (dim ond pan fydd y myfyriwr yn aelod staff)

Diffinnir y meini prawf dewis arholwyr yng Nghod Ymarfer Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil (Cod 05)

73. Rhaid bod cadeirydd y bwrdd arholi'n aelod profiadol o staff academaidd yr ysgol, neu os yw'r amgylchiadau'n gwarantu hynny, ysgol arall yn y brifysgol. Gall aelod profiadol o staff mewn sefydliad cydweithredol gadeirio'r bwrdd arholi, yn amodol ar delerau cytundeb cydweithredol.

74. Ni chaniateir penodi goruchwyliwr(wyr) y myfyriwr yn gadeirydd neu'n arholwr allanol. Caiff y goruchwyliwr fod yn bresennol yn yr arholiad llafar dim ond:

   i. Os bydd y myfyriwr yn gwneud cais i'r goruchwyliwr fod yn bresennol a bod y cadeirydd yn cydsynio â'r cais neu
   ii. Os bydd y cadeirydd, ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn unol â pharagraff 77 ac/neu baragraff 78, yn mynnu bod y goruchwyliwr yn bresennol neu
   iii. Os bydd yr arholwr mewnol neu allanol yn gwneud cais i'r goruchwyliwr fod yn bresennol a bod y cadeirydd a'r myfyriwr yn cydsynio i'r cais hwn.

Ni chaiff goruchwyliwr sy'n bresennol mewn arholiad llafar siarad ac eithrio pan fydd y cadeirydd yn ei wahodd. Er mwyn rhoi cyfle i'r myfyriwr ddisgrifio amgylchiadau lliniarol, gall y cadeirydd gau'r goruchwyliwr allan o rannau o'r arholiad.

75. Os nad yw'n bosib penodi arholwr mewnol o'r tu fewn i'r ysgol, gellir penodi arholwr mewnol o ysgol arall.

76. Os nad yw'n bosib penodi arholwr allanol o ysgol arall, gall cadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu (neu ei enwebai), ar argymhelliad pennaeth yr ysgol, benodir arholwr allanol ychwanegol, fel y'i disgrifir yn y Cod Ymarfer Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil (Cod 05)

77. Gall myfyriwr roi gwybod i gadeirydd y bwrdd arholi os oes unrhyw amgylchiadau lliniarol sy'n berthnasol i'w b/phroject ymchwil, i'r traethawd ymchwil neu arholi'r traethawd Rhaid hysbysu'r cadeirydd yn ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod i gyflwyno'r traethawd. Yn ôl doethineb y Cadeirydd, gall y myfyriwr gyflwyno manylion yr amgylchiadau lliniarol yn ystod yr arholiad llafar.

78. Gall goruchwyliwr roi gwybod i gadeirydd y bwrdd arholi os oes unrhyw bryderon sy'n berthnasol i broject ymchwil y myfyriwr, i'r traethawd neu arholi'r traethawd. Rhaid hysbysu'r Cadeirydd a'r myfyriwr yn

ysgrifenedig mor fuan â phosib ar ôl cyflwyno'r traethawd ymchwil, i ganiatáu amser i'r myfyriwr baratoi ymateb. Rhaid i'r cadeirydd sicrhau bod y myfyriwr yn cael digon o amser i ymateb i unrhyw bryderon a godir gan y goruchwyliwr.

**Arholiad Llafar**

79. Pwrpas yr arholiad llafar yw:

- caniatáu i'r arholwyr gael sicrwydd mai gwaith y myfyriwr ei hun yw'r traethawd.
- rhoi cyfle i'r myfyriwr amddiffyn y traethawd ymchwil ac egluro unrhyw faterion a godir gan yr arholwyr
- Caniatáu i'r arholwyr asesu gwybodaeth gyffredinol y myfyriwr am y maes astudio penodol.

80. Fel rheol cynhelir yr arholiad llafar yn y brifysgol, neu, os yw pawb yn gytûn, trwy gynhadledd fideo, a gynhelir fel arfer rhwng safle yn y brifysgol ac un safle arall. Os nad yw'r myfyriwr yn bresennol ar safle'r brifysgol, dylai aelodau'r bwrdd arholi fod gyda'i gilydd ar safle'r brifysgol. Os nad yw'r arholwr allanol yn bresennol ar safle'r brifysgol, dylai aelodau eraill y bwrdd arholi ynghyd â'r myfyriwr fod ar safle'r brifysgol.

81. Gellir cynnal yr arholiad llafar mewn man arall dim ond os yw Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn cytuno. Gellir cynnal yr arholiad llafar mewn sefydliad partner os yw'r rhaglen ymchwil ôl-raddedig yn rhan o gytundeb cydweithredol.

82. Fel rheol rhaid cynnal yr arholiad llafar o fewn 3 mis i'r dyddiad y cyflwynwyd y traethawd. Gall cadeirydd y bwrdd arholi ohirio arholiad llafar os oes amgylchiadau lliniarol sy'n atal y myfyriwr rhag bod yn bresennol. Ni ellir gohirio'r arholiad llafar am fwy na chwe mis ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y traethawd ymchwil.

**Penderfyniadau'r Bwrdd Arholi**

83. Rhaid i fyrddau arholi ddewis Opsiwn A, B neu C.

Opsiwn A. Dyfarnu'r radd gan ddefnyddio Opsiwn A1, A2 neu A3

A1. Yn ddiamod

A2. Ar ôl cwblhau mân gywiriadau.
Rhaid cwblhau'r rhain o fewn 4 wythnos i'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn derbyn hysbysiad swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Yn achos mân gywiriadau nid oes angen ail asesiad academaidd, er enghraifft, gwallau teipograffyddol neu ychydig o aildrefnu ar y deunydd. Rhaid i'r arholwr mewnol wirio bod y cywiriadau wedi cael eu gwneud.

A3. Ar ôl cwblhau diwygiadau sylweddol.
Rhaid cwblhau'r rhain o fewn 6 mis (neu 4 mis yn achos traethodau Meistr trwy Ymchwil) i'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn derbyn hysbysiad swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Rhaid i'r arholwr allanol wirio bod y cywiriadau wedi cael eu gwneud.

Opsiwn B. Cynnal arholiad arall (cyfeirio) gan ddefnyddio Opsiwn B1 neu B2

*Ni ddefnyddir Opsiwn B1 ar ôl arholi Traethawd Meistr trwy Ymchwil neu draethawd a ailgyflwynwyd.*

B1. Caniateir i'r myfyriwr ailgyflwyno'r traethawd, ar ôl talu ffi ailgyflwyno, o fewn 12 mis.
Gellir ailgyflwyno traethodau ymchwil ar gyfer graddau fel y rhestrir isod:

MPhil – ailgyflwyno ar gyfer MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil
DMin – ailgyflwyno ar gyfer DMin, MPhil neu MMinRes
EdD– ailgyflwyno ar gyfer EdD, MPhil neu MEdRes)
DClinPsy – ailgyflwyno ar gyfer DClinPsy
DHealthCare – ailgyflwyno ar gyfer DHealthCare
PhD – ailgyflwyno ar gyfer PhD, MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil

*Os dewisir Opsiwn B1, rhaid i'r Bwrdd Arholi nodi oes angen arholiad viva voce ar ôl ailgyflwyno'r traethawd.*

*Os argymhellir ailgyflwyno ond os yw'r myfyriwr yn dewis peidio ag ailgyflwyno yna rhaid i'r bwrdd arholi ddewis un o'r opsiynau a ddiffinnir yn Adran C.*

B2. Rhaid i'r myfyriwr gael arholiad viva voce arall:

i. heb fod angen unrhyw gywiriadau i'r thesis

ii. gyda mân gywiriadau i'w cwblhau o fewn 4 wythnos a chyn yr arholiad viva voce.

*Ar ôl yr arholiad hwn (neu os yw'r myfyriwr yn dewis peidio â dod), rhaid i'r bwrdd arholi ddewis opsiwn A, B neu C, ond ni ddefnyddir opsiwn B2 fel rheol.*

Opsiwn C. Penderfynu bod y myfyriwr wedi methu â chyrraedd y safon ofynnol.

*Ar gyfer y Radd Meistr trwy Ymchwil, DClinPsy neu DHeathCare rhaid i'r Bwrdd Arholi ddefnyddio opsiwn C2. Yn achos yr holl raddau eraill, rhaid i'r bwrdd arholi ddewis Opsiwn C1 neu C2.*

C1. Dyfarnu cymhwyster amgen fel a ganlyn, gan ddewis opsiwn C1 –i neu C1 – ii:

MPhil – dyfarnu Gradd Meistr trwy Ymchwil mewn pwnc perthnasol
DMin - dyfarnu MMin Ymchwil (MMinRes)
EdD – dyfarnu Med Ymchwil (MEdRes)
PhD – dyfarnu MPhil.

yn ddiamod

ii. gyda mân gywiriadau i'w cwblhau o fewn 4 wythnos. Rhaid i'r arholwr mewnol wirio bod y cywiriadau wedi cael eu gwneud.

C2. Peidio â dyfarnu gradd.

*Dylai arholwyr ddewis yr opsiwn hwn dim ond ar gyfer y radd Meistr trwy Ymchwil, DClinPs, DHealthCare neu pan arholir traethawd ymchwil a ailgyflwynwyd.*

84. Os oes rhaid cywiro traethawd ymchwil (fel y diffinnir ef ym mharagraff 83 adrannau A2, A3, B2ii neu C1ii) rhaid i'r ysgol anfon llythyr o fewn 10 diwrnod gweithio i'r arholiad llafar i roi gwybod i'r myfyriwr pryd y bydd angen cyflwyno'r traethawd wedi ei gywiro. Rhaid i'r ysgol hefyd ddarparu rhestr o'r cywiriadau a awgrymwyd gan yr arholwyr. Os oes angen cywiro traethawd (fel y'i diffinnir ym mharagraff 83 Adran B1) bydd y Gofrestrfa Academaidd yn anfon llythyr o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn penderfyniad y bwrdd arholi i roi gwybod i'r myfyriwr pryd y bydd angen cwblhau'r cywiriadau.

    Rhaid i'r ysgolion wneud yn siŵr bod trefniadau yn eu lle i sicrhau bod cywiriadau wedi cael eu cwblhau cyn y dyddiadau cau. Os nad ailgyflwynir traethawd cyn y dyddiad cau, rhaid i'r ysgol roi gwybod i'r Gofrestrfa Academaidd a chyfeirio'r achos at gadeirydd y bwrdd arholi i weithredu arno, fel y diffinnir gan yr opsiynau sydd ar gael i'r bwrdd arholi ym mharagraff 83.

85. Pan ailgyflwynir traethawd, rhaid i fyfyriwr roi crynodeb i'r bwrdd arholi o'r newidiadau a wnaed i'r traethawd gwreiddiol.